# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Diheintyddion a Gymeradwywyd 1978 drwy ychwanegu rhyw bymtheg ar hugain o ddiheintyddion ychwanegol sy'n cael eu gweithgynhyrchu gan gwmnïau penodol at y rhestr o ddiheintyddion a gymeradwywyd yn y Gorchymyn hwnnw. Mae'r diheintyddion sydd bellach wedi'u hychwanegu at y rhestr i'w defnyddio mewn perthynas â'r gofynion a osodir gan orchmynion clwy'r traed a'r genau.

Mae'r Gorchymyn hwn wedi'i wneud o dan y weithdrefn weithredol. Mae Gorchymyn i'r un perwyl a chyda'r un amser ar gyfer dod i rym wedi'i wneud ar gyfer Lloegr.

Er bod y Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig mae'n cael ei wneud gan y Cynulliad ar y cyd â'r Gweinidog Amaethyddiaeth am fod y trosglwyddiad swyddogaethau i'r Cynulliad wedi cadw'r gofyniad ynghylch cymryd camau ar y cyd a geir yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Nid yw'r Gorchymyn wedi'i wneud yn ddwyieithog am fod yr amser byr a oedd ar gael i'w baratoi yn golygu bod hynny'n anymarferol. Er hynny, deellir y bydd cyfieithiad yn cael ei gyhoeddi, yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 23.13. Fe fyddai offeryn o'r math hwn, sy'n cael ei wneud ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron, fel rheol yn dod o dan Adran 3 o Reol Sefydlog 23 ond nid yw wedi gwneud yn yr achos hwn am nad yw gorchmynion o dan y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid yn ddarostyngedig i Weithdrefn Seneddol.

Mae’r Gorchymyn hwn wedi’i gyhoeddi fel OS 2000 Rhif 641(Cy.31).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

13 Mawrth 2001